Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyllid ar gyfer addysg i oedolion ac ôl-raddedigion 2019/20

## Canllaw i Etholwyr

Mehefin 2019

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Ymchwil y Senedd**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6295**
E-bost: **Sara.Moran@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**


# Cyllid ar gyfer addysg i oedolion ac ôl-raddedigion 2019/20

## Canllaw i Etholwyr

Mehefin 2019


**Awduron:**
Sara Moran

# Cynnwys

**Y Canllaw Hwn** ........ **1**

**Yn gryno, beth yn union sydd ar gael?** ........ **2**

Addysg Uwch ........ 2

Mathau eraill o astudio ........ 3

**Astudiaethau ôl-raddedig** ........ **4**

Cymorth ariannol gan y Llywodraeth ar gyfer dilyn gradd Meistr ........ 4

Cymhwysedd ar gyfer cael cyllid ar gyfer dilyn gradd Meistr ........ 4

Gwladolion yr UE ........ 5

Symiau Cyllid Gradd Meistr ........ 6

Lwfansau Myfyrwyr Anabl ........ 8

Cymorth ariannol gan y Llywodraeth ar gyfer astudiaethau Doethurol ........ 8

Cymhwysedd ........ 9

Symiau Benthyciadau Doethurol ........ 10

Rwyf wedi astudio o'r blaen ........ 11

Cymorth ariannol gan y Llywodraeth i fyfyrwyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) ........ 11

Cymhelliant Hyfforddi Athrawon ........ 11



Cymorth ariannol gan y Llywodraeth ar gyfer rhaglenni gwaith cymdeithasol ........ 11

Cymhwysedd ........ 12

Y fwrsariaeth ........ 12

**Ffynonellau eraill o gyllid i oedolion ôl-raddedig ac oedolion nad ydynt mewn addysg uwch** ........ **14**

Cynghorau Ymchwil (Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig) ........ 14

Y gyfraith ........ 14

Dawns a Drama ........ 14

Trwy gyfrwng y Gymraeg ........ 15

Elusennau ac ymddiriedolaethau ........ 15

Benthyciadau Datblygiad Proffesiynol a Datblygu Gyrfa ........ 17

**Rhagor o wybodaeth** ........ **18**

# Y Canllaw Hwn

Bwriad y canllaw hwn yw helpu myfyrwyr sy'n oedolion ac ôl-raddedigion i ddeall pa gymorth ariannol a allai fod ar gael i'w helpu i astudio naill ai cwrs addysg uwch, neu fath arall o gwrs nad yw'n gwrs prifysgol.

Os ydych chi'n fyfyriwr israddedig dylech ddarllen y canllaw hwn: **Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn Addysg Uwch 2018/19.**

Os ydych chi'n fyfyriwr addysg bellach, dylech ddarllen y canllaw hwn. **Cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach 2018/19.**

Os gwnaethoch chi ddechrau astudio cyn mis Awst 2019, yna dylech weld fersiwn flaenorol y canllaw hwn er gwybodaeth.

Mae'r rheolau ynghylch cymorth ariannol i fyfyrwyr yn hynod gymhleth gyda llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld y caiff yr ymadrodd "fel arfer" ei ddefnyddio'n aml yn y canllaw hwn. Y rheswm am hyn yw bod y ddogfen hon i fod yn ganllaw cyffredinol ac nid yw'n cwmpasu pob posibilrwydd o ran amgylchiadau neu hawliau.

*Ymwadiad: Holir y Gwasanaeth Ymchwil yn rheolaidd ynglŷn â chyllid myfyrwyr ac mae'r canllaw cyflym hwn yn rhoi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau a ofynnir amlaf i ni. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Gyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwys sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol chi.*

# Yn gryno, beth yn union sydd ar gael?

## Addysg Uwch

Mae cymorth ariannol ar gael gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth. Mae'r cymorth hwn ar gael ar gyfer astudio amser llawn a rhan-amser.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyllid ar gyfer graddau Meistr a benthyciadau ar gyfer Doethuriaethau. Nid oes angen gwneud prawf modd am y rhain, ond mae angen eu had-dalu.

Yn wahanol i gymorth ariannol i israddedigion, lle mae'r cymorth wedi'i rannu rhwng help gyda'ch hyfforddiant a help gyda'ch costau byw, os ydych chi'n astudio ar gyfer gradd Meistr neu Ddoethuriaeth, byddwch yn cael un swm o arian ac yn dewis sut i'w ddefnyddio.

- Os ydych yn astudio ar gyfer gradd Meistr, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd, gallwch gael pecyn "Cyllid Gradd Meistr". Mae'r pecyn o 2019/20 yn gyfuniad o fenthyciad a grant o hyd at £17,000. Gallwch rannu hyn fel yr hoffech chi rhwng talu ffioedd a thalu am gostau byw. Os yw'ch cwrs yn hirach na blwyddyn (efallai oherwydd eich bod yn ei wneud yn rhan-amser) caiff y swm hwn ei rannu'n gyfartal dros flynyddoedd y cwrs. Mae ceisiadau ar gael o fis Mehefin 2019 ac mae **mwy o wybodaeth ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.
- Os ydych yn fyfyriwr Doethuriaeth, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd, gallwch gael benthyciad o hyd at £25,000 os bydd eich cwrs yn dechrau o 01 Awst 2019. Fel yn achos cyllid ar gyfer gradd Meistr, gallwch ei wario fel y dymunwch chi rhwng taliadau ffioedd dysgu a chymorth costau byw. Caiff hyn fel arfer ei dalu'n gyfartal dros flynyddoedd eich cwrs er bod uchafswm y gellir ei dalu mewn unrhyw flwyddyn (byddai hyn yn berthnasol yn bennaf i chi os gwnaethoch gais am y benthyciad ar ôl eich blwyddyn gyntaf ar y cwrs).

Mae ffynonellau eraill o gyllid ar gael, megis Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl os oes gennych chi anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor neu gyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol. Mae ffynonellau cyllid eraill ar gael hefyd gan amryw o gyrff ac elusennau. Ceir disgrifiad ohonynt isod.

Fel arfer ni all myfyrwyr Meistr a Doethuriaeth gael Lwfansau Dibynyddion fel Grantiau Gofal Plant, Lwfans Dysgu i Rieni a Grant Oedolion Dibynnol

Mae gwybodaeth am sut i wneud cais ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.



**Cyllid ar gyfer addysg i oedolion ac ôl-raddedigion 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

## Mathau eraill o astudio

Os ydych chi'n fyfyriwr mewn addysg bellach sy'n 19 oed neu'n hŷn bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall y cymorth ariannol y gallwch ei gael.

Mae'n debyg mai'r prif ddewisiadau ichi yn y sefyllfaoedd hyn yw ariannu'r rhaglen eich hun, cael cyflogwr i ariannu'r cwrs neu'ch noddi, neu wneud cais i elusen neu gorff tebyg a allai roi cymorth ichi.

# Astudiaethau ôl-raddedig

## Cymorth ariannol gan y Llywodraeth ar gyfer dilyn gradd Meistr

Os bydd eich cwrs yn dechrau ar 01 Awst 2019 efallai y byddwch yn gymwys i gael pecyn "Cyllid Meistr". Mae hwn yn gyfuniad o fenthyciad a grant o hyd at £17,000.

### Cymhwysedd ar gyfer cael cyllid ar gyfer dilyn gradd Meistr

Gall y rheolau ynghylch cymhwysedd fod yn gymhleth. Nid diben y canllaw hwn yw cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau unigol posibl. Ei ddiben yw bod yn ganllaw cyffredinol yn unig. Dylech ofyn am gyngor arbenigol gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru** os nad ydych yn sicr am eich cymhwysedd.

At ei gilydd, mae cymhwysedd yn dibynnu ar bob un o'r meini prawf canlynol:

1. Lle'r ydych chi'n byw (a'ch statws cenedligrwydd a phreswyliaeth)
2. Eich cwrs
3. Eich prifysgol neu goleg
4. Eich oedran
5. Astudiaethau blaenorol

Yn gyffredinol, i fod yn gymwys i gael cymorth:

- Rhaid ichi fod:
  - yn wladolyn y DU neu fod â 'statws preswylydd sefydlog' (dim cyfyngiadau ar yr hyd y gallwch aros yn y DU) a
  - bod yn byw yng Nghymru fel rheol (nid yw hyn yn cyfrif os ydych chi'n byw yng Nghymru at ddibenion astudio yn unig, er enghraifft wrth wneud eich gradd israddedig) ac
  - wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs; neu
  - yn wladolyn yr UE sy'n byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs, sydd wedi bod yn byw fel arfer mewn Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) neu'r Swistir am y tair blynedd diwethaf, ac a fydd yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru. Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn debygol o effeithio ar hyn o 2020/21. Bydd myfyrwyr yr UE sy'n dechrau yn 2019/20 yn parhau â'r drefn honno nes iddynt orffen eu cwrs.
  - â chaniatâd adran 67 i ddod i'r DU neu aros yno fel myfyriwr cymwys.



**Cyllid ar gyfer addysg i oedolion ac ôl-raddedigion 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

- Rhaid i'ch cwrs:
  - fod yn radd Meistr llawn, annibynnol (nid yn gwrs atodol, neu'n dystysgrif neu ddiploma ôl-raddedig)
  - fod yn werth 180 credyd (dyma'r nifer safonol o gredydau am radd Meistr lawn ond siaradwch â'ch prifysgol os nad ydych yn siŵr)
  - ddechrau ar ôl 01 Awst 2019 i fod yn gymwys am y Cyllid Gradd Meistr o £17,000
  - fod yn gwrs astudio amser llawn neu ran-amser.
- Rhaid i'ch sefydliad addysg uwch neu'ch coleg fod
  - wedi'i ariannu'n gyhoeddus ac wedi'i leoli yn y DU
  - neu os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid ichi ddilyn cwrs sydd wedi'i gymeradwyo'n benodol gan Lywodraeth Cymru (gallwch gael gwybod am hyn gan y brifysgol neu'r coleg).
- Rhaid ichi fod dan 60 oed ar y diwrnod y mae'ch cwrs yn dechrau.

Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf preswyliaeth a chenedligrwydd uchod, mae rhai meini prawf eraill megis bod yn ffoadur. Gellir dod o hyd i'r meini prawf cymhwysedd cyflawn, manwl ar **Wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru** a dylech bob amser wirio hyn yn seiliedig ar eich amgylchiadau eich hun.

Dylech wneud cais am gyllid israddedig os ydych yn dilyn cwrs Meistr Integredig neu Feistr mewn Pensaernïaeth (er y gallwch o bosib gael Cyllid Gradd Meistr o hyd os ydych yn astudio'n rhan-amser, neu os na allwch gael y cyllid israddedig fel arall).

### Gwladolion yr UE

Os ydych yn wladolyn yr UE, yn amodol ar gymhwysedd, gallwch gael y Benthyciad Ffioedd Dysgu fel arfer. Dim ond mewn amgylchiadau penodol y gall gwladolion yr UE gael help gyda chostau byw. Mae'n rhaid i chi fod yn ddinesydd yr UE sy'n byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs, a oedd yn byw yn yr AEE neu'r Swistir fel arfer am y tair blynedd diwethaf, a byddwch yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru. Bydd myfyrwyr yr UE sy'n dechrau cwrs addysg uwch yn 2018/19 yn parhau i dalu'r un ffioedd â myfyrwyr y DU a pharhau i fod yn gymwys i gael cymorth drwy gydol eu cwrs. Dylech edrych ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu gysylltu â'r corff os ydych yn credu bod angen help ychwanegol arnoch.

O ran ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, gwnaeth y Gweinidog Addysg yng Nghymru y datganiad a ganlyn ar 31 Mai 2019:

Bydd myfyrwyr o'r UE sy'n bwriadu astudio yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 yn gymwys i'r un ffioedd dysgu â myfyrwyr Cymru, a byddant yn gymwys i gael benthyciadau a/neu grantiau o Gyllid Myfyrwyr Cymru, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd sydd eisoes yn cael eu defnyddio.

Mae'r penderfyniad hwn yn parhau â'r polisi cyfredol a bydd myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth hyd nes y gorffennant eu cwrs. Mae hyn yn berthnasol i bob opsiwn cyllid sydd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr yng Nghymru y mae myfyrwyr o'r UE yn gymwys i'w gael. Mae'n cynnwys benthyciadau i dalu am ffioedd dysgu (i'r rheini sy'n byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ers tair blynedd), benthyciadau a grantiau cynhaliaeth (sydd ond ar gael i'r rheini sy'n byw yn y DU ers o leiaf tair blynedd), a rhai grantiau a lwfansau eraill.

Nid yw'r rheolau ar gyfer myfyrwyr o'r UE a fydd yn gwneud cais am le mewn prifysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 i ddilyn cwrs lle rhoddir cymorth i'r myfyrwyr wedi newid. Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn asesu'r ceisiadau hyn ar sail y meini prawf cymhwysedd, ac yn darparu benthyciadau a/neu grantiau yn y ffordd arferol. Bydd myfyrwyr o'r UE, neu aelodau o'u teuluoedd, yr asesir eu bod yn gymwys i gael grantiau a/neu fenthyciadau yn parhau'n gymwys tra byddant yn astudio ar y cwrs hwnnw.

Dylai myfyrwyr ymgynghori â swyddfa cyllid myfyrwyr eu prifysgol, neu wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael.

## Symiau Cyllid Gradd Meistr

Gallwch gael hyd at £17,000 o Gyllid Gradd Meistr sy'n gyfuniad o grant a benthyciad (bydd angen ad-dalu swm y benthyciad). Mae'r swm yn dibynnu ar a roddir ystyriaeth i incwm eich cartref ai peidio a faint yw incwm eich cartref.

Mae tair elfen allweddol y Cyllid Gradd Meistr yn cynnig y canlynol:

1. 1. Uchafswm y grant sydd ar gael yw £5,885 y flwyddyn.
2. 2. Y Grant Sylfaenol Cyffredinol o £1,000;
3. 3. Y benthyciad mwyaf sydd ar gael yw £16,000, llai swm y grant a ddyfarnwyd

Mae'r cydbwysedd rhwng grant a benthyciad yn dibynnu ar incwm ond y cyfuniad mwyaf sydd ar gael yw £17,000. Ceir isod rai enghreifftiau o wahanol bosibiliadau. Mae manylion llawn **ar gael yma** a byddem yn eich annog i gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru am eich amgylchiadau penodol.



**Cyllid ar gyfer addysg i oedolion ac ôl-raddedigion 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

Enghraifft 1: Cwrs Meistr Ôl-raddedig gydag incwm aelwyd heb ei ystyried

| Hyd y cwrs – blynyddoedd academaidd | Uchafswm y Cyllid Ôl-radd Meistr sydd ar gael fesul blwyddyn – Cyfanswm (£17,000) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | **Blwyddyn 4** |
| **1** | Benthyciad: £16,000<br>Grant: £1,000 | | | |
| **2** | Benthyciad: £8,000<br>Grant: £500 | Benthyciad: £8,000<br>Grant: £500 | | |
| **3** | Benthyciad: £5,333<br>Grant: £333 | Benthyciad: £5,333<br>Grant: £333 | Benthyciad: £5,334<br>Grant: £334 | |
| **4** | Benthyciad: £4,000<br>Grant: £250 | Benthyciad: £4,000<br>Grant: £250 | Benthyciad: £4,000<br>Grant: £250 | Benthyciad: £4,000<br>Grant: £250 |

Enghraifft 2: Cwrs Meistr Ôl-raddedig dros 2 flynedd gydag incwm aelwyd yn cael ei ystyried

| Blwyddyn y cwrs | Benthyciad (Cyfanswm £3,638) | Grant (Cyfanswm £6,362) |
|---|---|---|
| **1** | £1,819 | £3,181 |
| **2** | £1,819 | £3,181 |

Enghraifft 3: Cwrs Meistr Ôl-raddedig dros flwyddyn gydag incwm aelwyd yn cael ei ystyried

| Blwyddyn y cwrs | Benthyciad (amh) | Grant (Cyfanswm £6,885) |
|---|---|---|
| **1** | 0 | £6,885 |

Enghraifft 4: Cwrs Meistr Ôl-raddedig dros 2 flynedd yn amser llawn heb incwm aelwyd wedi ei ystyried:

| Blwyddyn y cwrs | Benthyciad (Cyfanswm £16,000) | Grant (Cyfanswm £1,000) |
|---|---|---|
| **1** | Taliad 1: £2,640<br>Taliad 2: £2,640<br>Taliad 3: £2,470<br>**Cyfanswm: £8,000** | Taliad 1: £165<br>Taliad 2: £165<br>Taliad 3: £170<br>**Cyfanswm: £500** |
| **2** | Taliad 1: £2,640<br>Taliad 2: £2,640<br>Taliad 3: £2,740<br>**Cyfanswm: £8,000** | Taliad 1: £165<br>Taliad 2: £165<br>Taliad 3: £170<br>**Cyfanswm: £500** |

### Lwfansau Myfyrwyr Anabl

Nid yw'r Lwfans Myfyrwyr Anabl ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig yr un fath â'r cynllun ar gyfer myfyrwyr israddedig.

Os ydych chi'n gymwys, dim ond un gyfradd unffurf sydd ar gael, sef £20,000 y flwyddyn ar gyfer astudio amser llawn a chyfradd pro-rata ar gyfer astudio rhan-amser. Ceir rhagor o wybodaeth **yma** ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

## Cymorth ariannol gan y Llywodraeth ar gyfer astudiaethau Doethurol

Gall myfyrwyr doethurol wneud cais am fenthyciad o hyd at £25,000 ar gyfer dilyn gradd doethuriaeth. Nid yw hyn yn seiliedig ar brawf mod mae angen ei ad-dalu. Fe'i telir yn uniongyrchol i chi ac fel arfer caiff ei rannu'n gyfartal dros flynyddoedd eich cwrs. Fel y Cyllid Gradd Meistr, chi sy'n penderfynu sut i'w rannu rhwng ffioedd a chostau byw.





### Cymhwysedd

At ei gilydd, mae cymhwysedd yn dibynnu ar bob un o'r meini prawf canlynol:

1. Lle'r ydych yn byw (a'ch statws cenedligrwydd a phreswyliaeth)
2. Eich cwrs
3. Eich prifysgol neu goleg
4. Eich oedran
5. Astudiaethau blaenorol

Yn gyffredinol, i fod yn gymwys i gael cymorth:

- Rhaid ichi fod:
  - yn wladolyn y DU neu fod â 'statws preswylydd sefydlog' (dim cyfyngiadau ar yr hyd y gallwch aros yn y DU) a
  - yn byw yng Nghymru fel rheol (nid yw hyn yn cyfrif os ydych chi'n byw yng Nghymru at ddibenion astudio, er enghraifft wrth wneud eich gradd israddedig) a
  - wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs.
  - yn wladolyn yr UE sy'n byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs, sydd wedi bod yn byw fel arfer mewn Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) neu'r Swistir am y tair blynedd diwethaf, ac a fydd yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru. Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn debygol o effeithio ar hyn o 2020/21. Bydd myfyrwyr yr UE sy'n dechrau yn 2019/20 yn parhau â'r drefn hon nes iddynt orffen eu cwrs.
  - â chaniatâd adran 67 i ddod i'r DU neu aros yno fel myfyriwr cymwys.
- Rhaid i'ch cwrs:
  - fod yn gwrs Doethuriaeth llawn, annibynnol (nid cwrs atodol);
  - bara rhwng 3 ac 8 mlynedd
  - ddechrau ar ôl 01 Awst 2019
  - fod yn gwrs astudiaeth amser llawn neu ran-amser
- Rhaid i'ch sefydliad neu'ch coleg addysg uwch:
  - fod wedi'i ariannu'n gyhoeddus a bod wedi'i leoli yn y DU
  - neu os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid ichi ddilyn cwrs sydd wedi'i gymeradwyo'n benodol gan Lywodraeth Cymru (gallwch gael gwybod am hyn gan y brifysgol neu'r coleg).

- ◊ os oes mwy nag un brifysgol yn gyfrifol am gyflwyno'ch cwrs a bod y llall dramor, byddwch ond yn gymwys os mai'r sefydliad yn y DU yw'r sefydliad arweiniol ar gyfer cyflwyno eich cwrs a'ch bod yn treulio o leiaf 50% o'ch amser astudio dros y cwrs cyfan yn y DU
- Rhaid ichi fod dan 60 oed ar y diwrnod y mae'ch cwrs yn dechrau.

Mae yna nifer o feini prawf a fyddai'n eich gwneud yn anghymwys i gael Benthyciad Doethurol, gan gynnwys os ydych wedi cael cyllid gan y Cyngor Ymchwil, neu gyllid gan gynllun Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS 2). Ceir y manylion yn llawn ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf preswyliaeth a chenedligrwydd uchod, mae rhai meini prawf eraill megis bod yn ffoadur.

Dylech edrych ar wefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru** i weld y meini prawf cymhwysedd yn llawn.

### Symiau Benthyciadau Doethurol

Gallwch gael benthyciad o hyd at £25,000 ar gyfer eich cwrs cyfan gyda hyn wedi'i rannu'n gyfartal rhwng pob un o flynyddoedd eich cwrs. Felly, er enghraifft os yw'ch cwrs yn para 4 blynedd a'ch bod yn cael y benthyciad llawn o £25,000, byddwch yn cael £6,250 am bob blwyddyn o'ch cwrs.

Fodd bynnag, ni allwch gael mwy na £10,609 mewn unrhyw flwyddyn o'ch cwrs. Mae hyn yn bwysig pe baech yn gwneud cais am y benthyciad ar ôl blwyddyn gyntaf eich cwrs. Pe baech chi'n gwneud hynny efallai na fyddwch yn cael y £25,000 llawn. I esbonio: os oedd eich cwrs yn 3 blynedd o hyd a'ch bod wedi gwneud cais yn yr ail flwyddyn, dim ond cyfanswm o £21,218 y gallech ei gael gan y byddai taliad pob blwyddyn yn cael ei gyfyngu i £10,609, nid hanner y £25,000 (£12,500).

Fel rheol, nid oes modd ichi hefyd gael Lwfansau Dibynyddion, fel Lwfans Dysgu i Rieni.

Fodd bynnag, gallwch barhau i fod yn gymwys i gael Lwfansau Myfyrwyr Anabl. Gweler Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn adran '**Cymorth gan y Llywodraeth ar gyfer dilyn Gradd Meistr**' o'r canllaw hwn i gael gwybodaeth am y rhain.



**Cyllid ar gyfer addysg i oedolion ac ôl-raddedigion 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

### Rwyf wedi astudio o'r blaen

Ni fyddwch fel arfer yn gallu cael Cyllid Doethurol neu Gyllid Gradd Meistr os oes gennych chi gymhwyster cyfwerth neu uwch yn barod (er enghraifft os oes gennych radd Meistr eisoes a'ch bod yn gwneud cais am Gyllid Gradd Meistr). Ni fyddwch ychwaith yn gallu cael Cyllid Doethurol na Chyllid Gradd Meistr os ydych yn dymuno ychwanegu at eich dyfarniad (er enghraifft os oes gennych Ddiploma Ôl-raddedig a'ch bod eisiau gwneud traethawd hir i ennill gradd Meistr lawn).

Os ydych wedi cael Cyllid Gradd Meistr neu Fenthyciad Doethurol o'r blaen ni fyddwch fel rheol yn cael un arall oni bai eich bod wedi gadael eich cwrs dan amgylchiadau penodol.

## Cymorth ariannol gan y Llywodraeth i fyfyrwyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)

Os ydych chi'n astudio rhaglen TAR byddwch yn gymwys i gael gwerth blwyddyn o'r pecyn israddedig, waeth beth y gwnaethoch ei astudio'n flaenorol. Dylech ddarllen **y canllaw hwn** i'ch helpu i ddeall y pecyn israddedig sydd ar gael o fis Medi 2019.

### Cymhelliant Hyfforddi Athrawon

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun cymhelliant ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon sy'n ychwanegol at y cymorth ariannol israddedig y crybwyllwyd uchod.

Mae cynllun 2019 ar gael i'w weld **yma**.

Mae'n werth rhwng £3,000 ac £20,000. Mae'r swm mwyaf ar gyfer y rhai sydd wedi ennill gradd gyntaf neu sydd â gradd Meistr neu PhD, ac sy'n astudio cyrsiau uwchradd ôl-raddedig mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, Cymraeg neu TGCh (gwyddorau cyfrifiadurol).

Mae tabl llawn o'r hyn y gellir ei hawlio **i'w weld yma**.

## Cymorth ariannol gan y Llywodraeth ar gyfer rhaglenni gwaith cymdeithasol

Mae **Gofal Cymdeithasol Cymru** yn gweinyddu Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gradd Meistr gymeradwy mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru. Gallwch weld manylion llawn am hyn **yn y fan hon**.

Mae nifer cyfyngedig o fwrsariaethau ar gael (224 yn 2019/20) ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn dyrannu'r rhain i bob rhaglen.

Mae hyn yn golygu, er bod 224 o fwrsariaethau, y bydd y rhaglen y mae arnoch chi eisiau ei hastudio yn cael dyraniad llai gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Cymhwysedd

Mae cymhwysedd yn dibynnu ar y meini prawf cyffredinol canlynol:

- Rhaid ichi fod wedi byw yng Nghymru am 12 mis yn y 3 blynedd cyn eich cwrs (mae'r meini prawf preswylio yn gymhleth a gellir eu gweld yn llawn yn y fan hon).
- Ni ddylech fod yn cael unrhyw gymorth ariannol i hyfforddi gan gyflogwr neu unrhyw sefydliad arall
- Dylech fod yn astudio gradd Meistr mewn gwaith cymdeithasol sydd wedi ei chymeradwy gan Gyngor Gofal Cymru
- Dylech fod â chynnig gan brifysgol yng Nghymru i astudio gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol a gymeradwywyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru
- Dylech fod wedi cael eich enwebu gan eich prifysgol i Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae ceisiadau'n agor o fis Mehefin 2019 a gallwch astudio'n amser llawn neu'n rhan-amser. Rhaid ichi ailymgeisio bob blwyddyn os yw'ch cwrs yn fwy na blwyddyn o hyd.

Gwahoddir myfyrwyr enwebedig i gwblhau cais sydd wedyn yn cael ei asesu. Nid yw enwebiad yn gwarantu y cewch fwrsariaeth.

Mae manylion llawn ynglŷn â chymhwysedd **ar gael yn y fan hon** a dylech ddarllen y rhain yn ofalus gyda'ch amgylchiadau eich hun mewn golwg.

## Y fwrsariaeth

Mae sawl rhan i'r gefnogaeth sydd ar gael.

Y fwrsariaeth wrth astudio ar gyfer gradd Meistr yw £13,280 (£6640 y flwyddyn). Nid yw'n seiliedig ar brawf modd ond mae'r lwfansau ychwanegol posib (gofal plant, oedolion dibynnol a lwfans dysgu rhieni) yn seiliedig ar brawf modd. Os ydych chi'n fyfyriwr rhan-amser byddwch yn cael cyfradd pro-rata yn dibynnu ar hyd eich cwrs.



**Cyllid ar gyfer addysg i oedolion ac ôl-raddedigion 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

Efallai y cewch chi hefyd Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer, sy'n gyfwerth â £7.50 fesul diwrnod cyfle dysgu ymarfer. Gallwch weld manylion y lwfans **yn y fan hon gan gynnwys manylion ar sut i hawlio treuliau ychwanegol**.

Fel rheol, nid yw myfyrwyr gradd Meistr yn cael Lwfansau Dibynyddion. Ond os cewch eich derbyn am fwrsariaeth gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol, gallech hefyd fod yn gymwys i gael Grant Gofal Plant (hyd at £8,330 ar gyfer un plentyn a £14,285 ar gyfer dau blentyn neu fwy); Grant Oedolion Dibynnol o hyd at £2,645, a Lwfans Dysgu i Rieni o hyd at £1,505. Nid yw'r lwfansau hyn yr un lwfansau ag y gwelwch chi ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru (er gwaethaf yr enwau tebyg) felly trafodwch y rhain gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rhain yn seiliedig ar brawf modd.

Gall myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol y dyfernir bwrsariaeth gradd Meistr iddynt hefyd fod yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl - eto nid yw hyn yr un lwfans ag y gwelwch chi ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Y cyfraddau yw:

- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am Lwfans Cynorthwy-ydd Anfeddygol: hyd at £13,070 y flwyddyn
- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am Lwfans Offer Arbenigol: hyd at £5,165 am hyd y cwrs.
- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am Lwfans Cyffredinol: hyd at £1,730 y flwyddyn
- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am Gostau Teithio: arian y bu'n rhaid ei wario at ddibenion astudio

Fel y crybwyllwyd, mae'r lwfansau ychwanegol hyn yn cael eu gweinyddu gan Gofal Cymdeithasol Cymru, felly dylech wirio eu **rheolau ynghylch cymhwysedd** a symiau a pheidio â dibynnu ar wybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru.

# Ffynonellau eraill o gyllid i oedolion ôl-raddedig ac oedolion nad ydynt mewn addysg uwch

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth ichi am ffynonellau cyllid posibl eraill. Mae'n cynnwys rhaglenni addysg uwch a rhaglenni nad ydynt yn rhai addysg uwch a allai fod yn fwy galwedigaethol.

## Cynghorau Ymchwil (Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig)

Mae Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig yn gorff newydd sy'n dwyn ynghyd y saith **Cyngor Ymchwil** yn y DU ynghyd ag *Innovate UK a Research England*.

Mae gan bob Cyngor Ymchwil ei bortffolio ei hun sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o'r gwyddorau meddygol a biolegol i seryddiaeth, ffiseg, cemeg a pheirianneg, gwyddorau cymdeithasol, economeg, y gwyddorau amgylcheddol a'r celfyddydau a'r dyniaethau.

Mae pob un o'r cynghorau ymchwil yn **ystyried** cyllido ôl-raddedigion unigol. Mae'r broses o sicrhau cyllid gan unrhyw Gyngor Ymchwil yn gystadleuol, ac nid yw'r ffaith bod myfyriwr wedi cael lle ar raglen ôl-radd yn golygu o anghenraid y dyfernir cyllid iddo. Ceir gwybodaeth fanylach ar wefan **Ymchwil ac Arloesi y DU**.

## Y gyfraith

Mae **Cymdeithas y Cyfreithwyr** yn cynrychioli cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu cymorth mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys lobïo a thrafod gyda rheoleiddwyr, y llywodraeth ac eraill, a chynnig hyfforddiant a chyngor.

Mae'n gweinyddu cynllun o'r enw'r **Diversity Access Scheme** i helpu pobl ymroddedig ac eithriadol o ddawnus i oresgyn rhwystrau cymdeithasol, economaidd neu bersonol rhag dod yn gyfreithiwr. Gall y cynllun hwn ddarparu ysgoloriaethau llawn a rhannol i ariannu'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol; lleoliadau gwaith; a chefnogaeth mentora. Mae ceisiadau ar gyfer 2019 bellach wedi cau.

## Dawns a Drama

Mae'r cynllun DaDA (Dyfarniadau Dawns a Drama) yn cynnig cymorth seiliedig ar asesiad incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn nifer o sefydliadau dawns a drama preifat yn Lloegr.





Diben cyllid DaDA yw cyfrannu at gostau unigolion dawnus sydd eisiau bod yn actorion a dawnswyr proffesiynol. Mae swm y grant yn dibynnu ar incwm yr aelwyd a lle mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio. Mae rhagor o wybodaeth am gynllun 2019/20 ar gael ar wefan **GOV.UK**.

## Trwy gyfrwng y Gymraeg

Yn flaenorol, roedd y **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** yn cynnig hyd at 10 **Ysgoloriaethau Meistr** y flwyddyn, gwerth **£3,000**, ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno dilyn gradd Meistr a gyflwynir yn llawn neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg. **Fodd bynnag, dim ond i israddedigion y mae'r ysgoloriaethau bellach yn berthnasol**.

## Elusennau ac ymddiriedolaethau

Prif ddiben **Sefydliad Sidney Perry** yw helpu myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd gyntaf, ond mae'r sefydliad hefyd yn cefnogi myfyrwyr ar gyrsiau ail radd sy'n gysylltiedig â'u graddau cyntaf. Bwriedir i'r grantiau fod yn atodol, gyda'r **uchafswm** grant yn **£1,000**. Gall y sefydliad roi cymorth ariannol i unigolion na fyddent fel arall yn gallu bwrw ymlaen â'u haddysg oherwydd diffyg arian. Rhaid i fyfyrwyr fod yn iau na 35 oed pan fydd y cwrs yn dechrau. Mae canllawiau a ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Sefydliad.

Gall **Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen** gynnig grantiau i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau ôl-raddedig, yn enwedig gwaith ymchwil. **Mae canllawiau i fyfyrwyr ar wneud cais (PDF, 78KB)** ar wefan yr ymddiriedolaeth. Y dyddiad cau i wneud cais ar gyfer cyrsiau sy'n cychwyn ym mis Medi / Hydref mewn unrhyw flwyddyn (neu gyda dyddiad dechrau hwyrach yn yr un flwyddyn academaidd) yw 30 Mehefin cyn y dyddiad dechrau. Mae ffurflenni cais ar gael o 1 Ebrill bob blwyddyn.

Nod **Ymddiriedolaeth Addysgol Syr Richard Stapley** yw cefnogi myfyrwyr meddygaeth, deintyddiaeth neu wyddoniaeth filfeddygol, a myfyrwyr ôl-raddedig ym mhob maes astudio sydd dros 24 oed yn y DU. At y diben hwn maent yn cynnig grantiau, fel arfer gwerth rhwng £400 a £1,500. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar **dudalen ymgeisio** yr Ymddiriedolaeth neu drwy e-bostio **admin@stapleytrust.org**. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am grant ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 wedi mynd heibio. Bydd pecynnau cais ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21 ar gael o 3 Ionawr 2017.

Mae **Funds for Women Graduates (FFWG)** yn cynnig Grantiau Sylfaenol i helpu merched graddedig gyda'u costau byw (nid ffioedd) ym mlwyddyn olaf eu hastudiaethau PhD neu DPhil tra byddant wedi cofrestru i astudio neu ymchwilio mewn sefydliad Addysg Uwch cymeradwy yn y DU. Mae FFWG hefyd yn cynnig grantiau argyfwng i ferched graddedig sy'n wynebu argyfwng ariannol annisgwyl (nad yw'n gysylltiedig â ffioedd). Cysylltwch â 01743 383047 / **grants@ffwg.org.uk** i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'r **Gilchrist Educational Trust** yn ystyried ceisiadau am grantiau gan unigolion sydd wedi gwneud darpariaeth briodol i ariannu gradd neu gwrs addysg uwch ond sy'n wynebu anawsterau ariannol annisgwyl a all eu hatal rhag cwblhau'r cwrs neu'r radd. Rhaid i ymgeiswyr fod yn fyfyrwyr amser llawn mewn Prifysgol ym Mhrydain. I wybod mwy ffoniwch 01743 383047 neu e-bostiwch **gilchrist.et@gmail.com**

Mae **Ymddiriedolaeth Thomas Wall** yn rhoi grantiau i helpu unigolion sy'n wynebu rhwystr rhag cael gwaith neu addysg ac na allant dalu am eu hyfforddiant mewn unrhyw ffordd arall, drwy gael grant neu fenthyciad statudol, er enghraifft. Mae grantiau o hyd at £1,000 ar gael i'r rhai sy'n astudio cwrs technegol neu gwrs sy'n seiliedig ***ar sgiliau islaw lefel gradd (hyd at Lefel 3)*** ac sy'n gallu dangos angen dybryd. Mae arian ar gael ar gyfer ffioedd cyrsiau, offer / deunyddiau, costau teithio a gofal plant.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn **rhoi cymorth i israddedigion neu ôl-raddedigion**. Rhaid i ymgeiswyr fod yn 16 oed neu'n hŷn, mae'n rhaid iddynt fod yn byw yn y DU ers o leiaf dair blynedd cyn dechrau eu cwrs a rhaid iddynt fod wedi cael caniatâd i weithio yn y DU. Mae modd ymgeisio am grant ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Ceir rhagor o wybodaeth **yma**.

Mae elusen **Lawrence Atwell** yn rhoi cymorth ariannol ar ffurf grantiau a benthyciadau i bobl ifanc rhwng 16 a 26 oed sy'n byw yng Nghymru neu Loegr. Mae cymorth ariannol ar gael i helpu tuag at gostau hyfforddiant galwedigaethol sy'n gam hanfodol tuag at gael cymhwyster galwedigaethol neu waith. Nod yr elusen yw cynorthwyo pobl ifanc sy'n dod o gefndir incwm isel i gael y cymwysterau neu'r medrau i weithio yn eu dewis gyrfa. I ymgeisio rhaid ichi fod yn ddinesydd Prydeinig, yn geisiwr lloches neu'n ffoadur sydd wedi dod i Brydain, neu mae'n rhaid eich bod yn byw yn y DU ers tair blynedd cyn dechrau eich cwrs. Mae rhagor o wybodaeth ar **wefan** yr elusen neu ffoniwch **(020) 72 13 0561 neu ebostiwch atwell@skinners.org.uk**. Nid oes dyddiad cau penodol ar gyfer ceisiadau, a bydd ar sail y cyntaf i'r felin.



**Cyllid ar gyfer addysg i oedolion ac ôl-raddedigion 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

## Benthyciadau Datblygiad Proffesiynol a Datblygu Gyrfa

Mae'r cynllun hwn bellach ar gau i newydd-ddyfodiaid ac mae'r benthyciadau yn dod i ben. Benthyciadau banc oedd Benthyciadau Proffesiynol a Datblygu Gyrfa y gallech eu defnyddio i dalu am gyrsiau a hyfforddiant. Codwyd cyfradd llog is ar y benthyciadau gyda'r llywodraeth yn talu'r llog i chi tra'r oeddech chi'n astudio.

# Rhagor o wybodaeth

Mae rhestr o'r ymddiriedolaethau, elusennau a sefydliadau yn y DU sy'n darparu cyllid ôl-raddedig i'w chael ar wefan **Prospects**. Hefyd, mae **Hot Courses**, **Scholarship Search**, **Postgraduate studentships** a **Student Cash Point** yn cynnwys cronfeydd data ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth am **grantiau i fyfyrwyr, benthyciadau, bwrsariaethau, ysgoloriaethau** a **chyllid**.

Mae **Turn2us** yn wasanaeth elusennol sy'n cynnig gwasanaeth tebyg gan gynorthwyo pobl i ddod o hyd i ffynonellau cymorth ariannol addas a gwneud ceisiadau amdanynt, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol. Gall cronfa ddata Turn2Us gynorthwyo pobl i ddod o hyd i wybodaeth am **fudd-daliadau lles, grantiau, cronfeydd lles a chymorth arall**.

Mae'r ***Grants Register***, a gyhoeddir yn flynyddol, hefyd yn rhoi manylion am filoedd o gyfleoedd cyllido ledled y byd. Mae'r ***Directory of Grant Making Trusts***, a gyhoeddir yn flynyddol gan y Sefydliad Cymorth i Elusennau, hefyd yn darparu gwybodaeth am ffynonellau grantiau perthnasol. Mae'r llyfrau hyn ar gael gan wasanaethau gyrfaoedd neu mewn llyfrgelloedd lleol.

Elusen gofrestredig sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo addysg ôl-raddedig yn y Deyrnas Unedig yw'r **National Postgraduate Committee**. **Nid yw gweithgareddau'r pwyllgor hwn yn cynnwys rhoi nawdd ariannol i unigolion na chyrsiau** ond mae adran ar y wefan sy'n rhoi gwybodaeth ac yn **amlinellu ffynonellau** **cymorth ariannol** sydd ar gael i **ôl-raddedigion sy›n astudio yn y DU**.